

PRIFFYRDD, CYMRU

2012 RHIF 34

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR WRTH
EGLWYS FETHODISTAIDD WRECSAM,
STRYT Y RHAGLAW, WRECSAM) 2012**

Wedi'i wneud *25 Gorffennaf 2012*

Yn dod i rym *3 Awst 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”) a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (*“the Council”*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam;

ystyr “y datblygwr” (*“the developer”*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw'r plan o'r enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir wrth Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam) 2012” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r gwaith datblygu i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 10 Ionawr 2012 o dan rif cyfeirnod WRO P/2012/0028.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd oni fydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r briffordd;

(b) hyd oni fydd y gwaith datblygu y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau ac y bydd y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd oni fydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi'u cyflawni.

4. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd honno, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

5. Os na fydd y gwaith datblygu y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi'i ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir wrth Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam) 2012.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Gorffennaf 2012

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn o ran Cymru bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o'r briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan siâp 'L' o droetffordd ar Stryt y Rhaglaw islaw'r hanner-landin gantlifrog i risiau Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, a honno'n rhan y mae ei man hiraf yn 4 metr a'i man lletaf yn 3.5 metr.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

Gwelliannau i fynedfa Eglwys Fethodistaidd Wrecsam drwy drosorchuddio darn o'r grisiau a'r tŵr mynediad sy'n bodoli eisoes ac amgáu rhan sydd o dan hanner-landin y grisiau.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR WRTH EGLWYS FETHODISTAIDD WRECSAM, STRYT Y RHAGLAW, WRECSAM) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru, sef qA1011493/1.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. bod methiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion y Ddeddf wedi rhagfarnu ei fuddiannau yn sylweddol;

caiff y person hwnnw cyn pen 6 wythnos ar ôl 3 Awst 2012 wneud cais i'r Uchel Lys am gael atal neud ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth, Cymru/ Gorchymynion Cau TCPA/ 2012).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan siâp 'L' o droetffordd ar Stryt y Rhaglaw islaw'r hanner-landin gantlifrog i risiau Eglwys Fethodistaidd Wrecsam, a honno'n rhan y mae ei man hiraf yn 4 metr a'i man lletaf yn 3.5 metr.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig

Gwelliannau i fynedfa Eglwys Fethodistaidd Wrecsam drwy drosorchuddio darn o'r grisiau a'r tŵr mynediad sy'n bodoli eisoes ac amgáu rhan sydd o dan hanner-landin y grisiau yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Rhan III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 10 Ionawr 2012 o dan gyfeirnod WRO P/2012/0028.